Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

01 Rhagfyr 2017

Mae ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 yn canolbwyntio ar y meysydd sydd fwyaf perthnasol i blant a phobl ifanc. Ystyriwyd materion sy'n ymwneud â blaenoriaethu adnoddau, fforddiadwyedd gwasanaethau, eu gwerth am arian, a'r broses gyffredinol sy'n gysylltiedig â llunio'r Gyllideb Ddrafft.

## Ein dull o weithredu

1. Mae materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn rhedeg ar draws portffolios Cabinet Llywodraeth Cymru ac, o ganlyniad, y Gyllideb Ddrafft. Felly, mae'n her craffu ar bob llinell gyllideb sy'n berthnasol i bortffolio ein pwyllgor. Serch hynny, wrth geisio dwyn y Llywodraeth i gyfrif am ei chyllidebu gan ei fod yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, rydym wedi canolbwyntio ein gwaith craffu eleni ar agweddau perthnasol ar y Prif Grwpiau Gwariant (MEG) a ganlyn:

    - MEG addysg;
    - MEG iechyd, llesiant a chwaraeon;
    - MEG cymunedau a phlant;

## Ein tystiolaeth

2. Er mwyn llywio ein gwaith craffu cawsom dystiolaeth lafar gan Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, ar 16 Tachwedd a 22 Tachwedd. Gwnaethom hefyd

gasglu tystiolaeth ysgrifenedig gan adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru[1] a defnyddio tystiolaeth berthnasol a gyflwynwyd i bwyllgorau eraill y Cynulliad[2]. Yn dilyn y ddwy sesiwn tystiolaeth lafar, gwnaethom ofyn am ragor o wybodaeth ysgrifenedig gan Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidog i egluro'r materion a gododd yn y dystiolaeth.[3] Rydym yn ddiolchgar iddynt hwy a'u swyddogion am ddarparu'r wybodaeth ddilynol hon ar frys.

## Ein hadroddiad

3. Oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i graffu ar y Gyllideb Ddrafft, rydym wedi ceisio canolbwyntio cynnwys ein hadroddiad ar ein safbwyntiau a'n sylwadau mewn meysydd penodol. Nid ydym wedi ceisio darparu crynodeb manwl o'r dystiolaeth a ddaeth i law - gellir dod o hyd i'r dystiolaeth drwy'r lincs a ddarperir yn y troednodiadau isod.

4. Yn ystod ein gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft, aildrefnwyd y Cabinet. Er eglurder, mae ein hadroddiad yn canolbwyntio ar grwpiau gwariant penodol o fewn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19 (fel y'i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2017), yn hytrach nag ar bortffolios diwygiedig y Cabinet (fel y'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017).

5. Byddem yn croesawu ymateb i'n hadroddiad ac argymhellion gan Lywodraeth Cymru i lywio ein cyllideb barhaus a'r gwaith craffu ariannol ehangach.

---

[1] Gofynnwyd am dystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru (a chafwyd y dystiolaeth honno) ar y meysydd a ganlyn o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19: MEG Addysg; MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon; MEG Cymunedau a Phlant; a llinell gyllideb Sgiliau a Gwyddoniaeth

[2] Gwnaethom ddefnyddio tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i ymgynghoriad cyffredinol y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, a thystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad sy'n ymwneud â chyllidebau ysgolion o fewn Cyfanswm Cyllid Allanol Llywodraeth Leol

[3] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn dilyn y cyfarfod ar 16 Tachwedd, a ddaeth i law ar 23 Tachwedd

# 01. Blaenoriaethau ac asesiadau o effaith

Mae'r gydnabyddiaeth economaidd a chymdeithasol o fuddsoddi mewn plant a phobl ifanc wedi'i dogfennu'n dda. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion yn 2009 a 2010 i gynyddu cyllidebau plant a monitro gwariant plant, ac ymrwymiad i gynhyrchu Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant, credwn fod diffyg gweledegdd o blant a phobl ifanc yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

## Dyletswyddau a nodau

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

6. Mae'r Confensiwn yn nodi'r ystod o hawliau a ddelir gan blant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Mae'r rhain yn cynnwys hawliau i ddiogelwch, iechyd, teulu, addysg, diwylliant a hamdden. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau a rhwymedigaethau'r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau ar ddeddfwriaeth, ffurfio polisi newydd neu adolygu/newid polisi cyfredol.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

7. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Ei nod yw sicrhau bod camau gweithredu yn diwallu anghenion y presennol, heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'n rhoi saith nod llesiant ar gyfer Cymru ar waith. Dim ond unwaith y bydd asesiad o'r effeithiau ar y dyraniadau ar ddatblygu cynaliadwy wedi'u gwneud y dylai penderfyniadau ar bolisïau a dyraniadau cyllideb gael eu gwneud.

## Asesiadau o effaith

8. Yn ei lythyr ar 14 Tachwedd 2017 dywedodd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant wrthym:

> "Mae'r broses Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i hymgorffori yn y prosesau o ddatblygu deddfwriaethau, polisïau newydd a rhaglenni Llywodraeth Cymru. Mae'r Asesiadau hyn yn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn elfen ganolog wrth wneud penderfyniadau neu ddatblygu polisïau. Er mai dyletswydd i roi sylw dyledus i hawliau plant sydd gan

> Weinidogion Cymru, yn hytrach na chwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, mae cyflwyno'r broses Asesu hon yn sicrhau cysondeb ymarferol ar draws y Llywodraeth."[4]

**9.** Wrth graffu ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant ar 18 Hydref, disgrifiodd y Comisiynydd ansawdd yr Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd hyd yma fel 'amrywiol'.[5] Felly, rydym yn croesawu'r gwaith sydd ar y gweill rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a threialu'r defnydd o dempled symlach ar gyfer Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant.

**10.** Yn y llythyr ar 14 Hydref nododd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes lle i symleiddio'r prosesau asesu effaith, er mwyn sicrhau bod eu hansawdd yn cael eu gwella a'u bod wedi'u hintegreiddio â chyfeiriad sylweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Pan holwyd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol pam nad oedd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 wedi bod yn destun Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant, dywedodd:

> "It could always be argued that you need more assessments than one. I know there is an honest disagreement here about those people that would like to see a CRIA undertaken on the budget as opposed to the integrated approach that we have taken. [...] 'Prosperity for All' was a deliberate approach to the whole policy approach, and the budget has to be aligned in a properly integrated, whole-Government way. I expect we'll continue to get asked this sort of question, but this is the approach the Government is taking."[6]

## EIN BARN NI

O gofio mai dyrannu adnoddau yw un o'r penderfyniadau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc, ac o ystyried y dyletswyddau a roddir ar Weinidogion Cymru i gynnal y hawliau hyn, nid ydym yn argyhoeddedig fod asesiad integredig o effaith Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn ddigonol. Rydym yn dal i fod heb ein hargyhoeddi hefyd bod alinio asesiadau integredig o effaith gyda nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau bod sylw

[4] Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Tachwedd 2017

[5] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 351], 18 Hydref 2017

[6] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 18], 22 Tachwedd 2017

dyledus yn cael ei roi i hawliau plant, yn enwedig gan nad yw'n cynnwys dyletswydd gyfreithiol benodol o sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Argymhelliad 1**. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant ar ei Chyllideb Ddrafft fel mater o drefn. Nid oes dim i atal Gweinidogion Cymru rhag defnyddio Asesiad o'r fath i lywio asesiad integredig ehangach o effaith. Rydym yn poeni heb Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant y gallai adnoddau, i gefnogi hawliau plant a phobl ifanc, ar y gorau fod yn anodd eu nodi. Ar y gwaethaf, gallai diffyg Asesiad arwain at Lywodraeth Cymru yn rhoi sylw annigonol i hawliau plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau ariannol pwysig.

# 02. Addysg

Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19 yn cynnwys dyraniad o £1.466 biliwn o adnoddau (refeniw) a chyfalaf o £168 miliwn o fewn y Terfyn Gwariant Adrannol Addysg. Dyma'r trydydd dyraniad mwyaf o fewn y Gyllideb Ddrafft gyffredinol, y tu ôl i Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Llywodraeth Leol, yn y drefn honno.

## Cyflwyno gwybodaeth: y llinell sylfaen ddiwygiedig

**11.** Fel gyda blynyddoedd blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrifo llinell sylfaen ddiwygiedig yn bennaf i gymharu'r dyraniadau ar gyfer 2018-19 gyda hwy (yn hytrach na chanolbwyntio ar y Gyllideb Atodol ddiweddaraf ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol). Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod wedi tynnu unrhyw ddyraniadau 'untro' neu symudiadau parhaol rhwng y prif grwpiau gwariant i gyrraedd y llinell sylfaen ddiwygiedig er mwyn galluogi'r hyn y mae'n ei ddiffinio fel 'cymhariaeth tebyg am debyg'.

**12.** Yr effaith yw bod llinell sylfaen adnoddau y Terfyn Gwariant Adrannol Addysg a Sgiliau yn £40.736 miliwn yn is nag yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2017-18 (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017). Mae hyn yn bennaf oherwydd tynnu'r dyraniadau 2017-18 a ganlyn o'r llinell sylfaen, a ystyrir fel rhai 'untro' gan Lywodraeth Cymru:

- y £25 miliwn ychwanegol i'r sector addysg uwch,
- y £5 miliwn ychwanegol a ddyrennir i'r sector addysg bellach, a'r
- £5 miliwn ychwanegol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg.

**13.** Fodd bynnag, yn 2018-19, mae Llywodraeth Cymru yn ailadrodd y cyllid 2017-18 ychwanegol 'untro' o £5 miliwn ar gyfer addysg bellach, ac yn darparu £15 miliwn ar gyfer addysg uwch. Mae hyn yn creu dau ddull gwahanol o ystyried y newid yn y gyllideb yn 2018-19, er enghraifft:

| Maes | Cyllid 2018-19 o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig | Cyllid 2018-19 o'i gymharu â chyllid gwirioneddol 2017-18 |
|---|---|---|
| Addysg bellach (gweithredu addysg ôl-16) | Yn codi £4,565,000 | Yn gostwng £440,000 |
| CCAUC i'w dosbarthu i brifysgolion | Yn codi £29,128,000 | Yn codi £4,133,000 |

EIN BARN NI

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru, er budd cymariaethau tebyg am debyg, yn ailgyfrifo'r gyllideb sylfaenol i gael gwared ar unrhyw wariant annodweddiadol, untro gwirioneddol a wnaed yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, credwn fod diffyg tryloywder a rhesymeg a gaiff ei deall yn glir ar gyfer cyfrifiadau diwygiedig 2017-18. Yn ymarferol, nid yw'r £15 miliwn ar gyfer addysg uwch, y £5 miliwn ar gyfer addysg bellach a'r £5 miliwn ar gyfer y Gymraeg yn golygu cyllid 'ychwanegol' yn 2018-19. Gan nad yw'r arian sydd ar gael i'r sectorau hyn yn cynyddu gan y symiau hyn, nid ydym yn credu ei fod yn briodol cyflwyno'r ffigurau fel hyn. At hynny, credwn y gallai hyn arwain at amheuaeth ynghylch hygrededd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei gwybodaeth am y gyllideb.

**Argymhelliad 2.** Mewn cylchoedd pennu'r gyllideb yn y dyfodol, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau'r canlynol:

- dim ond pan fo cyllid, a diben y cyllid hwnnw, wedi'i drosglwyddo i MEG arall, neu os oedd y gwariant yn wirioneddol untro, annodweddiadol ac unigryw i'r flwyddyn honno, y dylai cyllid gael ei dynnu o'r gyllideb sylfaenol at ddibenion cymharu. Er mwyn sicrhau cymariaethau cymharol o un flwyddyn i'r llall, ni ddylai Llywodraeth Cymru dynnu dyraniadau lle byddant yn cael eu hailadrodd y flwyddyn ganlynol;
- bod mwy o dryloywder ynghylch y rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu gwariant penodol o linellau sylfaen at ddibenion cymharol er mwyn osgoi'r potensial o roi argraffiadau camarweiniol ar y newidiadau gwirioneddol mewn cyllidebau.

## Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

**14.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod wedi 'diogelu' cyllidebau ysgol gyda chyllid o £62 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol yn y Cyfanswm Cyllid Allanol heb ei neilltuo.[7] Y Cyfanswm Cyllid Allanol yw swm y Grant Cynnal Refeniw a chyfraddau annomestig wedi'u hailddosbarthu. Fodd bynnag, yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 25 Hydref 2017, holodd CLlLC sut y cyfrifwyd y £62 miliwn, o ystyried bod yr Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer

[7] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2018-19 – Cynigion amlinellol – Cyllideb Newydd i Gymru, 3 Hydref 2017, paragraffau 4.49-4.50 a Datganiad llafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC, 3 Hydref 2017

gwasanaethau ysgol yn y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2018-19 ond yn codi gan £35 miliwn.[8]

**15.** Wedi hynny, ysgrifennodd Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 13 Tachwedd i roi eglurhad.[9] Dangosodd y llythyr hwn ddau beth:

- Yn gyntaf, bod y £62 miliwn yn cynrychioli'r newid yn y gyfran a gyllidir gan Lywodraeth Cymru o'r arian sydd ar gael i lywodraeth leol, y bwriedir ei wario ar ysgolion, sef y dyraniad Grant Cynnal Refeniw ynghyd ag elfen ailddosbarthu Ardrethi Annomestig ('Cyllid Allanol Cyfunol'), yn hytrach na chyfanswm yr Asesiad o Wariant Safonol, sydd hefyd yn cynnwys y refeniw yr amcangyfrifir a godir gan awdurdodau lleol o'r dreth gyngor.
- Yn ail, nad y £62 miliwn 'ychwanegol' yw'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017-18 a'r hyn y bydd bellach yn ei ddarparu yn 2018-19, ond y gwahaniaeth rhwng cyfrifiad gwreiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 a'r swm terfynol a ddyrannwyd.

**16.** Yn seiliedig ar lythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, byddai'r cyfrifiad gwreiddiol ar gyfer cyllideb 2018-19 ar gyfer elfen ysgolion Cyfanswm Cyllid Allanol wedi arwain at ostyngiad o £60.3 miliwn o'i gymharu â 2017-18, tra bod y £61.8 miliwn 'ychwanegol' yn arwain at gynnydd o £1.5 miliwn.

## EIN BARN NI

Rydym yn pryderu ynghylch y diffyg tryloywder mewn perthynas â'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddyrannu o fewn y Cyfanswm Cyllid Allanol i ddiogelu cyllidebau ysgolion. Er ein bod yn croesawu camau Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllidebau ysgolion o'r hyn a allai fod wedi bod yn ostyngiad niweidiol yn yr arian sydd ar gael gan awdurdodau lleol i ariannu ysgolion yn iawn, rydym yn siomedig gyda'r ffordd y mae'r newid mewn cyllid ar gyfer ysgolion wedi'i gyflwyno yn y gyllideb hon. Rydym yn arbennig o bryderus

[8] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion [paragraff 54], 25 Hydref 2017

[9] Llythyr gan Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Tachwedd 2017

ynghylch yr argraff[10] a roddwyd pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19 fod £62 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol ariannu ysgolion. Mae wedi dod yn amlwg yn ystod y gwaith craffu nad yw hyn yn wir. Mae'r cynnydd yn £1.5 miliwn o £1,554,065,000 i £1,555,581,000. Dim ond yn ystod y broses o graffu ar y Gyllideb Ddrafft y sefydlwyd hyn.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn deall y sefyllfa heriol sy'n wynebu cyllid cyhoeddus a'r pwysau parhaus ar gyllid gwasanaethau lleol, fodd bynnag, ar gyfer cylchoedd pennu cyllideb yn y dyfodol, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- bod yn fwy pendant ynghylch y newidiadau gwirioneddol mewn cyllid a ddarperir ar gyfer ysgolion yn ei phrif gyhoeddiadau;
- gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn gweithredu'r diogelwch arfaethedig ar gyfer cyllidebau ysgolion gan nad yw'r Cyfanswm Cyllid Allanol yn cael ei neilltuo ac felly nad oes sicrwydd y bydd unrhyw ddiogelwch ar gyfer cyllidebau ysgolion yn y setliad llywodraeth leol yn cyrraedd y rheng flaen mewn ysgolion.

## Codi safonau mewn ysgolion

**17.** Rydym yn croesawu'r £25 miliwn a ddyrannwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19 ar gyfer codi safonau mewn ysgolion - yn fwyaf nodedig dysgu proffesiynol athrawon - gan adeiladu ar yr £20 miliwn a ddarparwyd yn 2017-18 a rhan o'r £100 miliwn a addawyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y diben hwn yn ystod y Pumed Cynulliad. Rydym hefyd yn nodi cadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ei llythyr ar 23 Tachwedd ei bod yn bwriadu ariannu'r mentrau a ganlyn fel rhan o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Codi Safonau mewn Ysgolion:[11]

[10] Gweler, er enghraifft, dystiolaeth CLlLC i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion [paragraffau 38-56], 25 Hydref 2018 a BBC Ar-lein, 'Schools' cash rise half what ministers claim, says WLGA', 25 Hydref 2017.

[11] Llythyr gan Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a ddaeth i law 23 Tachwedd 2017.

| Menter | Cyllideb fras[12] |
|---|---|
| Cwricwlwm ac Asesiad | £3.0 miliwn (12%) |
| Arweinyddiaeth | £3.25 miliwn (13%) |
| Dysgu Proffesiynol | £13.25 miliwn (53%) |
| System Hunan-wella | £5.0 miliwn (20%) |
| Lles | £0.5 miliwn (2%) |
| **Cyfanswm** | **£25.0 miliwn (100%)** |

**18.** Rydym hefyd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gael £10 miliwn o'r gronfa Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol gwerth £20 miliwn o'r £100 miliwn ar gyfer codi safonau mewn ysgolion yn y Cynulliad hwn.[13] Yn ei llythyr ar 23 Tachwedd nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod £3.2 miliwn i gefnogi Trawsnewid ADY wedi'i gynnwys yn y dyraniadau ar gyfer 2018-19 a nodir yn y tabl uchod.

## EIN BARN NI

Rydym yn croesawu gwaith Ysgrifennydd y Cabinet i alinio cyllidebau codi safonau mewn ysgolion gyda chynllun gweithredu gwella addysg Llywodraeth Cymru, *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (sef mewn perthynas â: datblygu'r cwricwlwm; arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol athrawon; cydraddoldeb a lles; a sefydlu system hunan-wella). Serch hynny, rydym yn pryderu y gallai'r arian hwn ddod yn fanteisiol ar gyfer mentrau polisi nad oes ganddynt gartref cyllideb naturiol fel arall neu ddod yn ffynhonnell ariannu ar gyfer llinellau cyllideb sydd heb ddigon o adnoddau (er enghraifft, mae gan y cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth, ac anghenion dysgu ychwanegol, eu llinellau cyllideb eu hunain, ond maent yn tynnu ar gyllid o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Codi Safonau mewn Ysgolion).

**Argymhelliad 4.** Er mwyn sicrhau nad yw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Codi Safonau mewn Ysgolion yn dod yn llinell gyllideb 'amrywiol', rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- nodi'n glir sut y mae'n targedu'r £25 miliwn yn strategol yn 2018-19 a'r £100 miliwn ar draws y Pumed Cynulliad;

[12] Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod y ffigurau hyn yn fras oherwydd disgwylir bod elfen o or-raglennu yn atebol am newidiadau naturiol ac i sicrhau y gwneir y gorau o'r buddsoddiad dros y tymor.

[13] Llythyr gan Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at y Pwyllgor Cyllid, 8 Mawrth 2017

- pennu targedau clir sy'n rhoi manylion am yr hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni o'r buddsoddiad hwn, gydag amserlenni yr un mor glir.

## Maint dosbarthiadau babanod

**19.** Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £36 miliwn ar gael yn y Cynulliad hwn i ddatblygu addewid Ysgrifennydd y Cabinet i leihau maint dosbarthiadau babanod. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet, er mai amcan sylfaenol y polisi yw lleihau maint mwyaf dosbarthiadau babanod o 30 i 25, mae'n canolbwyntio ar y dosbarthiadau mwyaf yn gyntaf (dosbarthiadau o 29 a throsodd) a'r rhai sydd â lefelau uchel o gymhwysedd prydau ysgol am ddim. Yn ei llythyr ar 23 Tachwedd nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod achosion busnes wedi'u derbyn gan 22 o awdurdodau lleol Cymru ond ni chadarnhaodd yr union nifer o geisiadau a ddaeth i law.

### EIN BARN NI

Rydym yn nodi bod y ceisiadau cychwynnol ar gyfer y cyllid grant lleihau maint dosbarthiadau babanod yn amrywio ar draws awdurdodau lleol ac nid bob amser o reidrwydd lle'r oedd y dosbarthiadau â blaenoriaeth. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu meini prawf ar gyfer gwahodd ceisiadau.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fod yn rhagweithiol iawn wrth nodi a thargedu awdurdodau lleol ac ysgolion a fyddai'n elwa fwyaf o'r ymyriad er mwyn blaenoriaethu cyllid a sicrhau cymaint o werth am arian â phosibl. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am yr achosion busnes a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, gan gynnwys faint o ysgolion a dosbarthiadau fydd yn elwa o'r arian hwn.

## Cyllideb llywodraethu ysgolion

**20.** Rydym yn nodi'r gostyngiad sylweddol yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Llywodraethu Ysgolion, a ostyngodd o £1.124 miliwn yn 2017-18 i £36,000 yn 2018-19. Mae hyn yn ostyngiad o £1.088 miliwn (96.8 y cant) o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb. Er ein bod yn cydnabod y penderfyniadau heriol sy'n wynebu Ysgrifennydd y Cabinet yn y sefyllfa economaidd bresennol, rydym hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd hanfodol llywodraethu da ar gyfer darparu addysg o ansawdd uchel mewn ysgolion.

**21.** Rydym yn nodi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet, ar ôl ystyried y cymorth llywodraethu sydd ar gael i ysgolion, ei bod wedi sefydlu bod ystod o wasanaethau yn bodoli, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan awdurdodau lleol a chonsortia

rhanbarthol. Nododd ymhellach fod gwerthusiad blaenorol o Lywodraethwyr Cymru – sy'n derbyn cyllid o'r llinell gyllideb hon – wedi dangos nad oedd o reidrwyd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y sawl sy'n chwilio am gymorth; ac fel y cyfryw, dywedodd ei bod yn addasu ei Chyllideb Ddrafft i fynd i'r afael â'r hyn a oedd yn ymddangos fel ffynhonnell o ddyblygu yn y system.

**22.** Nodwn hefyd barodrwydd Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried a fyddai opsiynau i'r gwasanaeth addysg esgobaethol ddarparu rhywfaint o gymorth i lywodraethwyr, lle y bo'n briodol.[14]

**23.** Yn ei llythyr ar 23 Tachwedd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "Nid yw Llywodraethwyr Cymru wedi ymdrin â rhai o'r argymhellion a ddeilliodd o adolygiad o'u gweithgareddau a'u gwasanaethau yn 2014/15. Nid oes llawer wedi'i gyflawni o ran alinio rôl y swyddog datblygu â'r consortia, ac ychydig iawn o gynnydd a wnaed gan Lywodraethwyr Cymru o ran cael incwm ychwanegol wrth bartneriaid eraill neu drwy weithgareddau codi arian [...] mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr ysgol yn parhau i gael cymorth gan eu hawdurdodau lleol a'u consortia."[15]

**24.** Aeth ymlaen i nodi y byddai ei hadran yn gweithio gyda chonsortia i liniaru colled bosibl Llywodraethwyr Cymru ond bod yr adborth a gafwyd gan gonsortia hyd yma yn awgrymu na ragwelwyd unrhyw broblemau arwyddocaol oherwydd y golled bosibl

## EIN BARN NI

Rydym yn nodi gostyngiad sylweddol y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Llywodraethu Ysgolion o £1.124 miliwn i £36,000. Rydym yn cydnabod y penderfyniadau anodd sy'n wynebu Llywodraeth Cymru o fewn y sefyllfa economaidd bresennol ond yn gofyn am sicrwydd pellach gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y bydd cymorth effeithiol i lywodraethwyr ar gael er gwaethaf y toriad sylweddol yn y llinell wariant hon yn y gyllideb.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu effaith unrhyw newidiadau i'r trefniadau cefnogi ar gyfer llywodraethwyr yng Nghymru.

---

[14] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 16 Tachwedd 2017

[15] Llythyr gan Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Tachwedd 2017

## Grant Gwella Addysg

**25.** Roedd papur Ysgrifennydd y Cabinet yn egluro'r canlynol:

- Byddai'r Grant Gwella Addysg, a oedd yn werth £133 miliwn yn 2017-18, yn gostwng gan £2 filiwn ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20.
- Byddai £13.145 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw yn 2018-19 fel rhan o resymoli grantiau awdurdodau lleol ar draws y llywodraeth a throsglwyddir £9.093 miliwn arall yn 2019-20.
- Byddai cyllid i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig - testun ein hymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg yn gynharach eleni (cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2017) - yn ffurfio elfen y Grant Gwella Addysg sy'n trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw.

**26.** Roeddem yn falch o gael cadarnhad yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet ar 23 Tachwedd nad oedd wedi gwneud penderfyniad cadarn ynghylch a fyddai arian i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig yn ffurfio elfen y Grant Gwella Addysg sy'n cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw. Rydym yn ailadrodd ein hargymhelliad yn ein hadroddiad ym mis Chwefror 2017 y dylai'r trefniadau gwerthuso a monitro gael eu cryfhau a dylid ystyried sut y gellid defnyddio'r Grant Gwella Addysg yn well er budd y grwpiau hyn o ddysgwyr.

### EIN BARN NI

Byddem yn siomedig pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu dad-neilltuo cyllid i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig ymhellach pan ddangosodd ein hymchwiliad polisi yn gynharach eleni fod angen monitro a gwerthuso llawer mwy o ran sut y mae'r arian yn y Grant Gwella Addysg yn effeithio ar y grwpiau hyn o ddysgwyr. Croesawyd penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet yn gynharach eleni, mewn ymateb i'n hargymhelliad, i sefydlu 'fframwaith canlyniadau cryfach' ar gyfer y Grant Gwella Addysg.[16] Fodd bynnag, pe bai'r elfen o'r Grant Gwella Addysg i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig, yr oedd y Pwyllgor yn pryderu fwyaf amdani yn ei ymchwiliad,

[16] Y Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant Lleiafrifoedd Ethnig: Ymateb Llywodraeth Cymru, Mawrth 2017

yn cael ei rhoi i'r Grant Cynnal Refeniw, ni fydd y fframwaith deilliannau newydd yn effeithio ar y grwpiau hyn o ddysgwyr.

**Argymhelliad 7**. Ar sail y dystiolaeth a ddarperir yn ein Grant Gwella Addysg: Adroddiad ar Blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant Lleiafrifoedd Ethnig (Chwefror 2017), rydym yn annog Ysgrifennydd y Cabinet i gadw arian i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig fel rhan o'r Grant Gwella Addysg.

## Grant Datblygu Disgyblion

**27.** Rydym yn croesawu pwyslais parhaus Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â'r bwlch amddifadedd/cyrhaeddiad a gwella canlyniadau addysgol ymhlith disgyblion dan anfantais, gan gynnal y gyllideb gyfredol o £94 miliwn ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion yn 2018-19. Credwn y dylai prif ddiben y gyllideb addysg fod yn cefnogi'r holl ddisgyblion i gyrraedd eu llawn botensial.

**28.** Fodd bynnag, ar ôl cynnydd o un flwyddyn i'r llall wrth gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys, mae data dros dro yn dangos y bwlch yn ehangu yn 2017. Croesawyd sicrwydd Ysgrifennydd y Cabinet mewn tystiolaeth lafar ar 16 Tachwedd fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal 'adolygiad manwl' o'r rhesymau dros y gostyngiad mewn cyrhaeddiad yn 2017.[17] Edrychwn ymlaen at archwilio hyn yn fanylach fel rhan o'n hymchwiliad i gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol.

### EIN BARN NI

Edrychwn ymlaen at graffu ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn targedu cyllid i hybu canlyniadau addysgol disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni yn ein hymchwiliad arfaethedig. Rydym yn nodi'r duedd bryderus yn 2017 o ddirywiad mewn cyrhaeddiad TGAU, yn enwedig ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn dilyn patrwm hirdymor fel arall o gyrhaeddiad cynyddol a chulhau'r bwlch cyrhaeddiad. Er ein bod yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail i'r Grant Datblygu Disgyblion, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant yn sicrhau gwerth am arian a'r defnydd gorau posibl o adnoddau addysg. Felly, rydym yn croesawu'r adolygiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal i ymchwilio i'r rhesymau a'r ffactorau y tu ôl i'r tueddiadau siomedig yng nghanlyniadau TGAU 2017.

[17] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 178], 16 Tachwedd 2017

**Argymhelliad 8.** Er mwyn llywio ein hymchwiliad arfaethedig i gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol, gofynnwn i Lywodraeth Cymru rannu copi o adroddiad yr adolygiad a'r camau sy'n deillio o hynny.

## Addysg Bellach

**29.** Nodwn fod y cyllid ar gyfer y sector addysg bellach yn gostwng ychydig (gan £440,000) yn 2018-19 o'i gymharu â 2017-18 (0.1 y cant o gyfanswm y gyllideb). Nodwn ymhellach fod cadw'n agos at lefel 2017-18 o ganlyniad i Lywodraeth Cymru yn darparu £5 miliwn ychwanegol eto i'r sector i reoli cyflogau cyffredinol a phwysau cysylltiedig. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y cyllid o £5 miliwn ym mhob un o flynyddoedd ariannol 2017-18 a 2018-19 wedi'i fwriadu i ddarparu sefydlogrwydd ar ôl cyfnod o ostyngiadau ers 2013-14.

**30.** Cydnabu Llywodraeth Cymru yn ein sesiwn graffu ar y gyllideb ar 16 Tachwedd, ac yn ein sesiwn graffu gyffredinol ar addysg bellach ac addysg uwch ar 18 Hydref, fod y pwysau ariannol parhaus ar y sector addysg bellach wedi dod ynghyd â:

- gostyngiad mewn staff cyfwerth ag amser llawn (gostyngiad o 17 y cant, o 9,330 yn 2012-13 i 7,755 yn 2015-16);[18]
- gostyngiad yn nifer y dysgwyr rhan-amser a'r dysgwyr sy'n oedolion (gan ostwng mwy na 50 y cant, o 31,000 yn 2012-13 i 15,000 yn 2015-16).[19]

**31.** Soniodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym am nifer o fentrau sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r duedd hon ac y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynlluniau newydd maes o law i wella'r cyfranogiad mewn addysg oedolion.[20]

### EIN BARN NI

Rydym yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru i sefydlogi cyllid addysg bellach yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dilyn cyfnod o ostwng cyllidebau ar gyfer y sector. Er ein bod o'r farn y dylai'r £5 miliwn rheolaidd yn 2018-19 a 2019-20 helpu'r sector i reoli pwysau ariannu, rydym yn pryderu o hyd na fydd yn ddigonol i alluogi colegau i unioni'r gostyngiad yn nifer y staff na gwrthdroi'r gostyngiad mewn addysg rhan-amser ac addysg oedolion. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth

---

[18] Stats Cymru, Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn mewn Sefydliadau Addysg Bellach yn ôl sefydliad, 9 Mai 2017

[19] Stats Cymru, Dysgwyr mewn dysgu cymunedol a ddarperir gan awdurdod lleol yn ôl grŵp oedran a rhyw, Mai 2017

[20] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 222], 16 Tachwedd 2017

Llywodraeth Cymru o'r angen i fynd i'r afael â'r mater hwn fel mater o flaenoriaeth os yw Cymru am gael system addysg a hyfforddiant dysgu gydol oes wirioneddol.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r strategaeth i gynyddu cyfranogiad mewn addysg oedolion yn y dyfodol agos.

## Addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr

**32.** Nodwn fod cyfanswm yr incwm ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru wedi cynyddu oddeutu £270 miliwn rhwng 2010-11 a 2015-16. Mae hyn yn cynnwys cyllid grant i sefydliadau addysg uwch - drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) - ac incwm o ffioedd dysgu myfyrwyr, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o incwm sefydliadau addysg uwch.

**33.** Ar 18 Hydref 2017, cyn mynd i'r Pwyllgor ar gyfer gwaith craffu cyffredinol ar addysg bellach ac addysg uwch, cyhoeddodd Kirsty Williams ddatganiad ysgrifenedig yn nodi y byddai'r ffioedd dysgu uchaf yn cael eu rhewi yng Nghymru ar £9,000. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyhoeddi o'r blaen (ym mis Gorffennaf 2017) y byddai ffioedd yn codi gyda chwyddiant am dair blwyddyn academaidd, yn dechrau gyda 2018/19.

**34.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu £10 miliwn ychwanegol i CCAUC i wrthbwyso colled sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o incwm yn sgil rhewi'r ffioedd dysgu. Roedd llythyr dilynol at y Pwyllgor, dyddiedig 31 Hydref, yn darparu rhai manylion am sut y cyfrifwyd y £10 miliwn hwnnw, er yn y sesiwn graffu ar y gyllideb ar 16 Tachwedd dywedodd nad oedd penderfyniad wedi'i wneud o hyd am y flwyddyn ariannol y byddai'n cael ei ariannu ohoni. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei llythyr ar 23 Tachwedd nad oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael ar hyn o bryd ond y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu inni unwaith y cynhaliwyd trafodaethau gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Ar 29 Tachwedd, cadarnhaodd gohebiaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai'r £10 miliwn yn cael ei dyrannu fel rhan o'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2018-19.

### EIN BARN NI

Tra'n cydnabod yr her o reoli marchnad addysg uwch hydraidd, mae'n parhau i fod yn aneglur inni sut y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r £10 miliwn y mae wedi'i addo i wneud iawn i brifysgolion am ei phenderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'i bwriad i gynyddu'r ffioedd dysgu mwyaf o 2018 -19 yn unol â chwyddiant.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o fanylion am ffynhonnell yr arian hwn a'r gwaith cynllunio ariannol sy'n sail i'r penderfyniad hwn fel mater o flaenoriaeth.

## Cyllid cyfalaf: Ysgolion yr 21ain Ganrif

**35.** Rydym yn croesawu cynnydd Llywodraeth Cymru o £67 miliwn yn y gyllideb Cyfalaf Addysg (o £101 miliwn yn 2017-18 i £168 miliwn yn 2018-19) i ehangu'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Rydym yn nodi bod Band A o'r rhaglen i ddod i ben ym mis Mawrth 2019, gyda Band B wedi'i drefnu i ddechrau ym mis Ebrill 2019. Nodwn ymhellach ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i gefnogi pob prosiect a gyflwynir gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes.

### EIN BARN NI

Rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed hyd yma ar Raglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i gefnogi pob prosiect a gynigir gan awdurdodau lleol, yn ddarostyngedig i drefniadau cynllunio a gweithdrefnau trefnu statudol ysgolion, ac i ddarparu hyblygrwydd i brosiectau Band A na ellir eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2019.

# 03. Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Dyrennir dros hanner Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. Serch hynny, mae diffyg manylion am lefel yr adnoddau a ddyrennir i blant a phobl ifanc o fewn y MEG. Yn y bennod hon, rydym yn amlinellu ein barn ar y dyraniadau a wneir i brif feysydd gwariant y GIG fel maent ymwneud â phlant a phobl ifanc.

## Cyflwyno gwybodaeth

**36.** Rydym yn cydnabod bod gwariant ar blant a phobl ifanc yn digwydd ar draws ystod o gyllidebau o fewn y MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. Fodd bynnag, mae diffyg manylder yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19 am lefel yr adnoddau a ddyrennir i blant a phobl ifanc o fewn y MEG. Gyda darpariaeth gwasanaethau'r GIG mewn perthynas â phlant, cyflyrau meddygol plant ac iechyd cyffredinol plant yn cael ei ariannu'n bennaf drwy ddyraniadau refeniw blynyddol i'r Byrddau Iechyd, a chyda gwariant arfaethedig ddim yn cael ei nodi'n rheolaidd yn ôl categori oedran, mae ein gallu i graffu ar y Gyllideb Ddrafft fel y mae'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn her flynyddol.

**37.** Nid yw'r adnoddau yr oeddem wedi gobeithio y byddent o gymorth inni yn y dyfodol wrth olrhain dyraniadau cyllideb ar gyfer plant a phobl ifanc - gan gynnwys Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant a'r Cynllun Iechyd Plant arfaethedig - wedi dod i'r amlwg. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cwblhau asesiad o effaith integredig mewn perthynas â'i Chyllideb Ddrafft, ni chynhaliwyd Asesiad penodol o Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym y byddai'n rhaid i sefydliadau'r GIG gynnal Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant wrth ddatblygu eu cynlluniau tymor canolig gan ystyried y buddsoddiad ychwanegol a ddarparwyd yng nghyllideb 2018-19.[21] Dywedodd wrthym hefyd ar 16 Tachwedd y byddai cynigion ar gyfer y Cynllun Iechyd Plant bellach yn cael eu cyfuno i'w ddull cyffredinol o waith y GIG yng Nghymru yn y dyfodol, yn enwedig ei ymateb i'r Adolygiad Seneddol, y dylem ei ddisgwyl yn gynnar yn 2018.[22]

---

[21] Llywodraeth Cymru, MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, Tachwedd 2017, tudalen 2

[22] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 16 Tachwedd 2017

**EIN BARN NI**

Mae diffyg canolbwyntio ar blant wrth baratoi'r MEG hwn o bryder mawr inni, yn yr un modd ag y mae diffyg tryloywder mewn perthynas â dyrannu adnoddau i blant a phobl ifanc. O gofio bod dros hanner cyllideb gyfan Llywodraeth Cymru yn cael ei dyrannu yn y MEG hwn, nid ydym yn argyhoeddedig bod gadael Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant i sefydliadau'r GIG fel rhan o'u cynlluniau tymor canolig wedi'u hintegreiddio yn ddigonol.

**Argymhelliad 11**.

- Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'n agos gynhyrchiad y Byrddau Iechyd o'r Asesiadau disgwyliedig o Effaith ar Hawliau Plant a'u dwyn i gyfrif am eu darparu.
- Ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i:
  - gynnal ei Hasesiadau o Effaith ar Hawliau Plant ei hun mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft (gweler argymhelliad 1);
  - cyflwyno'n gliriach yn nogfennaeth y Gyllideb Ddrafft sut y mae adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu dyrannu.
- Drwy fabwysiadu dull mwy integredig o'i strategaeth yn y dyfodol, rydym yn annog Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod adnoddau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno'n glir fel y gallwn fonitro eu fforddiadwyedd, i ba raddau y maent yn cael eu blaenoriaethu, a'u gwerth am arian.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

**38.** Rydym yn croesawu cadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet bod y Gyllideb Ddrafft, yn unol â chytundeb y gyllideb gyda Plaid Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017), yn cynnwys cynnydd o £20 miliwn yn y dyraniad iechyd meddwl a neilltuir, gan ddod â'r cyfanswm i bron £650 miliwn ar gyfer 2018-19. Rydym hefyd yn croesawu'r cadarnhad y bydd yr £20 miliwn ychwanegol hwn yn digwydd eto yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2019-20.

**39.** Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi cynyddu'r ffens derfyn iechyd meddwl yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gydnabod y galw cynyddol am wasanaethau. Mewn meysydd sydd o ddiddordeb uniongyrchol i'n cylch gwaith, mae hyn wedi

cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer CAMHS, gwasanaethau amenedigol cymunedol a therapïau seicolegol.

**40.** Ategodd Ysgrifennydd y Cabinet y disgwylir i Fyrddau Iechyd, o fewn y ffens derfyn iechyd meddwl, asesu anghenion iechyd meddwl a lles eu poblogaethau. Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu'r gyfran o arian refeniw cyffredinol y GIG y dylai Byrddau Iechyd ei wario ar wahanol agweddau ar iechyd meddwl, gan gynnwys CAMHS - gadewir hyn i Fyrddau Iechyd ei farnu yn unol â'u hasesiad o anghenion a blaenoriaethau.

## EIN BARN NI

Fel Pwyllgor, rydym yn cymryd diddordeb brwd a gweithredol mewn mynediad at - ac ansawdd - gwasanaethau CAMHS. Er ein bod yn croesawu'r diogelwch ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y MEG hwn, rydym yn pryderu nad oes diogelwch i CAMHS ynddo'i hun ac nad yw'n glir a yw'r ffens derfyn iechyd meddwl yn arwain at y lefel gywir o ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn croesawu'r cyllid rheolaidd ar gyfer CAMHS a gyhoeddwyd yn 2016-17, a'r manylion am y meysydd penodol y bwriedir eu hariannu. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi eglurder ar y canlynol:

- cyfran y cyllid CAMHS ychwanegol rheolaidd a ddyrennir i bob Bwrdd Iechyd yn 2018-19 a 2019-20;
- disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch meysydd CAMHS y dylid gwario'r cyllid hwnnw arnynt;
- y canlyniadau disgwyliedig ar gyfer y gwariant hwnnw a'r dulliau a ddefnyddir i'w monitro.

Fel rhan o'n hymchwiliad cyfredol i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, byddwn yn archwilio gwariant y Byrddau Iechyd ar CAMHS gyda'r bwriad o adolygu'r gwariant ar blant a phobl ifanc o'i gymharu ag oedolion. Byddwn hefyd yn ystyried y canlyniadau sy'n cael eu sicrhau yn sgil y gwariant cyffredinol ar CAMHS.

## Plant anabl

**41.** Rhestrodd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant yr enghreifftiau a ganlyn o arian a ddyrennir drwy Grant y Trydydd Sector ar gyfer plant anabl, a'u teuluoedd a'u gofalwyr:

- £930,000 drwy Anabledd Dysgu Cymru;
- £670,000 drwy Gofalwyr Cymru;
- £400,000 drwy Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan.[23]

**42.** Nododd hefyd fod yr hen Gronfa Gofal Canolraddol, a drawsnewidiwyd yn Gronfa Gofal Integredig yn 2017-18 i roi arian y tu hwnt i bobl hŷn yn unig, yn cynnwys £16 miliwn (o gyfanswm o £60 miliwn) i gefnogi grwpiau ychwanegol fel y rhai hynny gydag anableddau, awtistiaeth a phlant ag anghenion cymhleth.[24]

**EIN BARN NI**

Rydym yn croesawu'r ystod o arian sydd ar gael i blant anabl yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19. Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu y gallai symud i ffwrdd o'r ffocws blaenorol ar 'blant mewn angen' i 'ffocws ar bobl' ehangach, gyffredinol beryglu'r flaenoriaeth gymharol a roddir ar blant anabl yn nyraniadau'r Gyllideb Ddrafft.

**Argymhelliad 13**. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fonitro cymorth i blant anabl yn agos a sicrhau bod penderfyniadau ynghylch adnoddau yn rhoi blaenoriaeth iddynt.

## Gwasanaethau newyddenedigol

**43.** Roedd gan ein Pwyllgor rhagflaenol ddiddordeb mawr yn y ddarpariaeth o wasanaethau newyddenedigol. Cododd tystiolaeth ar y pwnc hwn hefyd fel rhan o'n hymchwiliad i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn gynharach eleni. Er y buddsoddwyd yn yr adeiladau sy'n gartref i unedau newyddenedigol ledled Cymru, yn ôl Adroddiad Blynyddol 2016 y Rhwydwaith Newyddenedigol (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017), mae risgiau lefel uchel yn parhau o ran y gweithlu newyddenedigol a'i gapasiti.

**EIN BARN NI**

Er ein bod yn croesawu'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau newyddenedigol yng Nghymru, rydym yn pryderu nad yw *Trydydd argraffiad Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan* - a ddylai fod

[23] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 34], 16 Tachwedd 2017

[24] Ibid

wedi'u gweithredu yn 2017 - wedi'u cyhoeddi eto. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y Grŵp Llywio wedi'u cymeradwyo ym mis Chwefror 2017 a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ym mis Mawrth 2017.

**Argymhelliad 14**. Dylai safonau sbarduno'r dyraniad o adnoddau - gan gynnwys cyllidebau - ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r argraffiad diweddaraf fel mater o frys er mwyn gallu darparu gwasanaethau newyddenedigol cynaliadwy, o ansawdd uchel gyda digon o staff ledled Cymru.

## Nyrsys ysgol

**44.** Mae rôl nyrsys ysgol yn yr agenda gyhoeddus ac iechyd ataliol yn allweddol ac yn cael ei gydnabod gan ddatblygiad diweddar y fframwaith nyrsys ysgol.

### EIN BARN NI

**Argymhelliad 15**. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion yng Nghyllidebau Drafft Llywodraeth Cymru ynghylch yr adnoddau a ddyrennir i ddarparu nyrsys ysgol, yn unol â'r fframwaith, ledled Cymru. Bydd hyn yn ein galluogi i fonitro fforddiadwyedd y gwasanaeth a'i werth am arian yn fwy effeithiol, ac i sicrhau ei fod yn derbyn y lefel briodol o flaenoriaeth mewn perthynas â meysydd gwasanaeth eraill.

## Chwaraeon a gweithgarwch corfforol

**45.** Mae pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol i iechyd a lles plant a phobl ifanc wedi'i ddogfennu'n dda, ac mae'n arbennig o bwysig fel elfen o wariant ataliol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

### EIN BARN NI

**Argymhelliad 16**. Yn ychwanegol at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros chwaraeon i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, byddem yn croesawu eglurhad o sut y bydd y ddau bortffolio yn cael eu halinio ar draws y llywodraeth i gyflawni'r amcan o gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc.

# 04. Cymunedau a phlant

Mae'r Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Phlant yn cynnwys cyfanswm o £397.2 miliwn o adnoddau (refeniw) a chyfalaf o £477.0 miliwn. Mae'r Cam Gweithredu Cefnogi Plant ar gyfer 2018-19 wedi gweld cynnydd o £16.3 miliwn tra bod y Cam Gweithredu Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi yn gostwng gan £14.2 miliwn.

## Y cynnig gofal plant

**46.** Ym mis Tachwedd y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion am ei Chynnig Gofal Plant, gan ddweud y byddai'n darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio a sydd â phlant tair a phedair oed ledled Cymru am 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r cynnig wedi'i dreialu ers mis Medi 2017 mewn saith ardal awdurdod lleol gyda chyfradd ariannu genedlaethol sengl o £4.50 sydd ar gael ar gyfer gofal plant yn unig - gall darparwyr godi tâl am unrhyw wasanaethau ychwanegol (e.e. trafnidiaeth a chostau bwyd, neu weithgareddau y telir amdanynt). Disgwylir cyflwyno'r cynnig yn llawn erbyn 2021.

**47.** Ar 22 Tachwedd, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod 'ffigur gweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y polisi yn parhau i fod yn £100 miliwn y flwyddyn ar ôl i'r hawliad gael ei weithredu'n llawn ledled Cymru. Nododd mai diben y peilot oedd sefydlu gyda mwy o sicrwydd yr adnoddau sydd eu hangen ac na fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu rhagolwg o ffigurau ar gyfer 2021 ymlaen hyd nes bod rhagor o dystiolaeth o'r peilot a'i werthusiad ar gael.

**48.** Er bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant wedi nodi gostyngiad mewn tlodi a chynyddu cyfradd y menywod sy'n dychwelyd i'r gwaith fel rhesymau dros fabwysiadu'r polisi, nodwn gasgliad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru mewn perthynas â'r cynigion gwreiddiol na fyddai mwy o ofal plant am ddim yn gwneud llawer o wahaniaeth i leihau tlodi neu gael mwy o fenywod yn ôl i'r gwaith:

> "The impact on work participation and work hours for mothers in families with a child of target age is extremely small [...] neither option is likely to achieve either objective to any notable, possibly discernible, degree." [25]

**49.** Rydym hefyd yn nodi galwad Comisiynydd Plant Cymru ar 9 Hydref i Lywodraeth Cymru:

> "...ail-feddwl ei chynnig gofal plant ac ystyried yr effeithiau tymor-hir y polisi yma ar y plant sydd angen y gefnogaeth fwyaf."[26]

**50.** Ar 31 Hydref 2017, canfu adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Capasiti Gofal plant yng Nghymru: mapio'r ddarpariaeth gofal plant yn erbyn y galw posibl amdano fod lefel gyfartalog yr argaeledd cyfredol ar gyfer gofal plant sy'n cael ei gynnig ledled Cymru gyfan yn ddwy awr a deugain munud fesul plentyn.

## EIN BARN NI

Er ein bod yn nodi bod y cynnig gofal plant yn parhau i fod mewn cyfnod peilot, rydym yn pryderu ynghylch y canlynol:

- y gallai eithrio plant o gartrefi lle nad oes gwaith estyn y bwlch rhwng y grŵp hwn a'r rhai lle mae eu rhieni'n gweithio, o ran parodrwydd i fynd i'r ysgol;
- ar gost fras gyfredol o £100 miliwn y flwyddyn unwaith y caiff ei weithredu ledled Cymru, gallai'r polisi gael effaith sylweddol ar fforddiadwyedd rhaglenni eraill a dargedir at blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr (ac, yn ôl tystiolaeth y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, ni fydd o reidrwydd yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir o gael pobl i mewn i'r gwaith);
- efallai na fydd y gyfradd genedlaethol o £4.50 yn ddigonol i gyflwyno ansawdd y gofal y byddem yn dymuno ei gael ar gyfer ein plant;
- efallai na fydd gan Gymru y capasiti i gyflwyno'r polisi hwn o ystyried casgliad yr adroddiad ar Gapasiti Gofal plant yng Nghymru yn ymwneud â lefel gyfartalog yr argaeledd cyfredol ar gyfer y cynnig gofal plant ledled Cymru gyfan.

Felly, rydym yn falch o weld Llywodraeth Cymru:

---

[25] Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, Opsiynau Polisi Gofal Plant ar gyfer Cymru [Saesneg yn unig], Rhagfyr 2015, tudalen 2

[26] Comisiynydd Plant Cymru, Y Comisiynydd yn annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei pholisi gofal plant, 9 Hydref 2017

- yn mabwysiadu dull peilot fesul cam i'r polisi hwn, wedi'i ategu gan werthusiad annibynnol i asesu ei effaith a'i werth am arian;
- yn ymgymryd â'r peilot mewn amrywiaeth o leoliadau er mwyn profi effeithiolrwydd y polisi mewn gwahanol leoedd;
- gyda'r bwriad o seilio penderfyniadau yn y dyfodol ar gyflwyno'r polisi ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod peilot.

**Argymhelliad 17**. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ymateb i'r adroddiad ar Gapasiti Gofal Plant yng Nghymru, sy'n rhoi manylion am y canlynol:

- y rhagamcaniadau ar gyfer capasiti'r sector rhwng nawr a phryd y rhagwelir y cyflwynir y rhaglen ar gyfer Cymru gyfan;
- y camau gweithredu y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd i gynyddu'r capasiti hwnnw i gyflwyno'r rhaglen ar gyfer Cymru gyfan;
- y costau cyfalaf ac adnoddau a ragwelir sy'n gysylltiedig â chyrraedd y lefel angenrheidiol o gapasiti.

**Argymhelliad 18**. Rydym yn rhannu pryderon Comisiynydd Plant Cymru y bydd plant nad yw eu rhieni mewn gwaith yn disgyn ymhellach y tu ôl i'w cyfoedion os ydynt yn colli allan ar y ddarpariaeth hon. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych yn fanwl ar ffocws y rhaglen, gan ddefnyddio'r cyfnod peilot i wneud y canlynol:

- ystyried ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys rhieni mewn addysg neu hyfforddiant;
- ystyried ail-ffocysu'r cynnig ar anghenion datblygu pob plentyn yn ofalus yn hytrach na statws cyflogaeth ei riant/rhieni;
- asesu'r rhyngberthynas rhwng y ddarpariaeth Gofal Plant newydd a darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg.

## CAFCASS

**51.** Nododd papur Llywodraeth Cymru ar y MEG Cymunedau a Phlant y dylid amsugno'r holl gostau chwyddiant o fewn y gyllideb ar gyfer CAFCASS. Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod cynnydd 'sylweddol' o 25 y cant wedi digwydd mewn achosion cyfraith gyhoeddus a 29 y cant mewn achosion cyfraith breifat dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**52.** Mewn tystiolaeth lafar ar 22 Tachwedd, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, er nad oedd cyllideb CAFCASS wedi'i gostwng, fod y cynnydd yn llwyth gwaith y

gwasanaeth wedi creu amgylchedd heriol i'r sefydliad. Fodd bynnag, gwnaethant nodi'r canlynol:

- nododd adolygiad diweddar o waith CAFCASS berfformiad da o ran amseroedd ymateb ac achosion a ddygwyd ymlaen;
- roedd uwch-aelodau o staff y sefydliad wedi derbyn y dyraniad arfaethedig ac yn derbyn y realiti o ran sefyllfa ariannol dynn;
- mae CAFCASS yn gweithio o fewn ei sefydliadau i weld lle gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd.[27]

**EIN BARN NI**

Er ein bod yn cydnabod y cyfyngiadau ariannol presennol, rydym yn pryderu ynghylch gallu CAFCASS i fodloni lefel y twf yn y galw am ei wasanaethau - a ddisgrifir gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant fel 'cynnydd diwrthdro' - ar gyllideb sefydlog.

**Argymhelliad 19**. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu effaith y dyraniad cyllideb sefydlog presennol ar berfformiad parhaus CAFCASS. O ystyried y penderfyniadau a allai newid bywyd a oedd yn deillio o asesiadau cynghorwyr llys teulu (e.e. p'un a ellir mabwysiadu plentyn), gofynnwn y rhoddir sylw arbennig i effaith y gyllideb hon ar yr amser sydd ar gael i gynnal yr asesiadau hynny ac ar faich achosion cynghorwyr llys. Rydym yn gofyn am y canlynol:

- y cynhelir Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant ar y penderfyniad cyllideb hwn a'i rannu gyda ni;
- y rhennir diweddariadau chwe mis ar yr asesiad o effaith y gyllideb sefydlog ar berfformiad CAFCASS gyda ni.

## Cymunedau yn Gyntaf

**53.** Mae dirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben wedi arwain at ostyngiad o £13 miliwn i'r *Cam Gweithredu Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi* o fewn y MEG Cymunedau a Phlant. Trosglwyddwyd y £13 miliwn hwn i gronfeydd wrth gefn ac mae'n cynrychioli 91.5 y cant o'r gostyngiad cyffredinol (£14.2 miliwn) i'r Cam Gweithredu hwn.

[27] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 119-126], 22 Tachwedd 2017

**54.** Mae Dogfen Naratif y Gyllideb yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i uno'r holl grantiau a delir i awdurdodau lleol i gefnogi ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi, gan gynnwys Etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n nodi y bydd hyn yn arbed £13 miliwn oherwydd 'biwrocratiaeth' sy'n gysylltiedig â rheoli grantiau ond mae'n cydnabod y gall symud i un grant gyflwyno rhai heriau yn ogystal â llawer o gyfleoedd; byddai angen atebolrwydd cymesur ynghyd â mwy o hyblygrwydd.[28]

**55.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, dywedodd Julie James AC, Arweinydd y Tŷ, mai pobl ifanc a phobl ag anableddau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y penderfyniad i ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben.[29]

## EIN BARN NI

Yn ystod 2017 rydym wedi tynnu sylw at ein diddordeb yn sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi parhad y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf mwyaf effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Amlygodd yr Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant yn ystod y broses o wneud penderfyniadau i ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben:

- roedd 32 y cant o brosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn 2016-17 yn canolbwyntio'n arbennig ar blant a phobl ifanc;
- er mwyn lleddfu'r effaith yn dilyn y penderfyniad i ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben, y byddai disgwyl i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaethau ymadael a byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda hwy ar ddatblygu a chyflwyno'r strategaethau hyn er mwyn cynnal gwasanaethau gwerthfawr, gan gynnwys y rhai ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**Argymhelliad 20**. Rydym yn dal i bryderu bod y penderfyniad i ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben yn fwyaf tebygol o effeithio ar blant a phobl ifanc, gyda phlant a phobl ifanc anabl yn cael eu heffeithio fwyaf. Rydym yn ailadrodd ein cefnogaeth ar gyfer argymhellion 1 ac 11 o adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad, sef Cymunedau yn Gyntaf - yr hyn a ddysgwyd (Gorffennaf

[28] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2018-19 – Cynigion amlinellol – Cyllideb Newydd i Gymru, 3 Hydref 2017, paragraff 4.16

[29] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion [paragraff 140], 15 Tachwedd 2017

2017) ac yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn eu derbyn. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o fanylion am y canlynol:

- sut y mae wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi'r holl raglenni a ddarperir ar hyn o bryd gan Cymunedau yn Gyntaf ond y dylent gael eu darparu gan gyrff statudol eraill;
- sut y mae wedi addasu rhaglenni i liniaru yn erbyn canlyniadau anfwriadol o ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben;
- sut y mae gweithgarwch o'r fath wedi'i adlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19;
- sut y bydd yr arbedion 'effeithlonrwydd' gwerth £13 miliwn yn deillio o gyfuno grantiau yn cael eu defnyddio, yn enwedig pa gyfran - os o gwbl - o'r arbediad hwnnw fydd yn cael ei dyrannu ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc.

## Tlodi plant

**56.** Cydnabu Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016 fod ei huchelgais i ddileu tlodi plant (a ddiffiniwyd o ran y mesur incwm cymharol) erbyn 2020 wedi dibynnu'n drwm ar amgylchiadau economaidd ehangach y DU ac nad oedd yn bosibl ei gyflawni.[30] Yn yr un flwyddyn, anogodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddyrannu hyd eithaf yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer dileu tlodi plant ac ailsefydlu targedau concrid o fewn amserlen y cytunir arni.[31]

**57.** Mae cyllidebau blaenorol Llywodraeth Cymru wedi cynnwys Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Polisi Tlodi Plant, a gyfunwyd yn ddiweddarach â'r dyraniad ar gyfer Diwygio Lles, o dan y Polisi Trechu Tlodi. Yn ystod gwaith craffu y llynedd ar y Gyllideb Ddrafft, cadarnhawyd nad oes gan Lywodraeth Cymru gyllideb ar wahân mwyach i drechu tlodi plant. Ar 22 Tachwedd, mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei farn mai ymagwedd Llywodraeth y DU tuag at gyfyngder a'r system fudd-daliadau oedd y prif ddylanwad ar gyfraddau tlodi plant yng Nghymru. Roedd yn ceisio ein sicrhau:

> "The move around having a budget line doesn't change the reality of how money is spent and what it is spent on [...] we've put all of the resources we

[30] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Tlodi Plant: Asesu Cynnydd 2016 - Adroddiad Cryno, Rhagfyr 2016

[31] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Arsylwadau terfynol ar bumed adroddiad cyfnodol y Deyrnas Unedig o Brydain Fawr a Gogledd Iwerddon [Saesneg yn unig], Mehefin 2016

> could and should do into tackling child poverty [...] if we don't persuade all parts of our Government to act as a Government that works with each other, as opposed to single areas that compete for resources and attention, well, actually, we'll lessen our input."[32]

## EIN BARN NI

Rydym yn dal i bryderu ynghylch diffyg targedau Llywodraeth Cymru ar dlodi plant a'r hyn a gredwn sy'n ddiffyg eglurder ynghylch faint o arian a ddyrennir i - ac a gaiff ei wario ar - drechu tlodi plant.

**Argymhelliad 21**. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu:

- faint o'i chyllid sy'n cael ei gyfeirio at drechu tlodi plant;
- beth yw'r canlyniadau dymunol ar gyfer cyllid o'r fath;
- sut y mae'n paratoi ar gyfer effaith Credyd Cyffredinol, yn enwedig mewn perthynas â'r effaith ar blant a phobl ifanc.

[32] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 157-159], 22 Tachwedd